# Moelfre i Bentraeth

**Cyfleusterau ac Amwynderau:**
Moelfre - Ann's Pantry. The Kinmel Arms.
Llallgo - The Parciau Arms
Benllech - Amrywiol
Pentraeth - Amrywiol

Toiledau: Lleoliad What3Words
Maes Parcio Moelfre - ///lends.examples.sharper
Benllech, Maes Parcio Traeth Wendon - ///health.punk.issuer

## **Lleoliadau Stamp:** Eglwys Sant Gallgo, Llanallgo.

## Cyfeiriadau:

1. Dechreuwch o'r Maes Parcio (91 Ffordd Lligwy, Moelfre LL72 8LT) a'r toiledau cyhoeddus (safle bws ar y ffordd gyferbyn).

2. O'r maes parcio, dilynwch y llwybr troed sy'n gadael i'r dde o'r toiledau a throwch i'r chwith, gan fynd i fyny'r allt. Cerddwch am 250 medr ar y ffordd hon i gyrraedd yr ysgol, yna trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd i'w phen lle mae'n arwain at lwybr troed. Dilynwch y llwybr troed hwn tan iddo gyrraedd ysgubor.

3. Wrth gyffordd y llwybr, ewch i'r dde ac yna drwy gât llwybr troed fetel. Ewch heibio'r ysgubor ar eich dde a dilynwch y llwybr troed trwy gât mochyn i'r chwith ac yna dilynwch y ffin ar y llaw dde ac arwyddion llwybr troed. Mae gât llwybr troed arall yn arwain trwy ganol y cae hwn i mewn i'r cae nesaf. Ewch i lawr yr allt i gyrraedd llwybr troed arall wrth ochr yr afon.

4. Parhewch nesaf at yr afon trwy ddwy gât arall i gyrraedd y ffordd.

5. Trowch i'r dde yma i ymweld â Din Lligwy, olion Capel Lligwy, a Siambr Gladdu Lligwy – y cwbl yn dra chymeradwy. Mae'r gwyriad hwn wedi'i gynnwys yng nghyfanswm pellter ac amseriad y daith. Os yw'n well gennych lwybr byrrach, trowch i'r chwith yma gan osgoi'r safleoedd hyn ac arbed tua 2 gilomedr. Os ydych yn eu hosgoi, ewch i *** baragraff 10 isod.

6. Ar ôl troi i'r dde, parhewch ar y ffordd am 360 medr i gyrraedd gât llwybr troed ar y chwith, a thrwy hon mae Siambr Gladdu Lligwy.

**Mae Siambr Gladdu Lligwy yn dyddio o ddiwedd y cyfnod Neolithig. Mae ei chapfaen yn pwyso tua 25 tunnell (pwysau bras pedwar eliffant mawr), sy'n golygu ei bod ymhlith y mwyaf yng Nghymru. Roedd y beddrod wedi'u orchuddio â thwmpath pridd ac fe'i datgladdwyd ym 1908, gan ddatgelu olion dynion, menywod, a phlant, ynghyd ag esgyrn anifeiliaid, cregyn, teclynnau fflint, crochenwaith, a phin asgwrn.**



7. Ar ôl ymweld â'r Siambr, trowch i'r chwith ar y ffordd am 300 medr i gyrraedd hysbysfwrdd ar y chwith a gât llwybr troed yn arwain i lawr grisiau carreg. O'r fan yma, gallwch weld olion Capel Lligwy. Mae gât fetel yn eich arwain i mewn i'r olion.

**Mae'n debygol bod y capel adfeiliedig hwn o'r 12fed ganrif â golygfa o Fae Lligwy yn sefyll ar safle eglwys bren Geltaidd gynharach. Fe'i hadeiladwyd yn ystod cyfnod mwy sefydlog ar ôl i gyrchoedd gan y Llychlynwyr ar Ynys Môn ddod i ben.**




**Fe wnaeth y capel wasanaethu'r gymuned leol tan y 18fed ganrif. Ychwanegwyd capel deheuol yn ddiweddarach yn yr 16eg ganrif, â siambr gladdu â chell garreg oddi tano ar gyfer teulu Pierce Lloyd o Blas Lligwy.**

8. I gyrraedd Din Lligwy, dilynwch arwyddion a'r ffin chwith (yn arwain o'r fynedfa). Ewch heibio mynedfa gyfyngedig a pharhewch i ddilyn y ffin chwith tan y gallwch weld ardal o goetir o'ch blaen ac ychydig i'r dde. Ar ymyl dde'r coetir hwn ceir gât mochyn sy'n arwain i mewn i'r goedwig. Ewch i fyny grisiau carreg a thrwy gât arall i gyrraedd adfeilion Din Lligwy. (Byrddau gwybodaeth ar gael).

**Mae'r pentref hynafol rhyfeddol hwn yn gorchuddio mwy na chwarter arwynebedd cae pêl-droed ac yn cynnwys olion dau gwt crwn a sawl adeilad hirsgwar, y cwbl wedi'u hamgáu o fewn wal garreg sylweddol hyd at 5 troedfedd (1.5 medr) o drwch. Mae'r anheddiad yn dyddio'n ôl i ddiwedd y cyfnod Rhufeinig yn y 3edd a'r 4edd ganrif, er bod tystiolaeth o strwythurau y tu hwnt i'r amgae yn awgrymu y gallai'r safle fod wedi'i feddiannu mor gynnar â'r Oes Haearn. Darganfyddwch fwy**

9. O'r fan yma, dychwelwch y ffordd y daethoch heibio'r siambr gladdu i'r gât yn arwain allan o'r cae. 990 medr.

10. ***Dilynwch y ffordd am 350 medr (i'r chwith o'r gât mochyn yr ydych wedi dod ohoni) i gyrraedd cylchfan ag angor yn ei chanol. Trowch i'r dde a phan fo'n ddiogel, croeswch y ffordd i gerdded ar yr ochr chwith. 470 medr. Cadwch at y chwith gan ddilyn lôn sy'n gyfochrog â'r ffordd i gyrraedd Eglwys Sant Gallgo.



**Eglwys Sant Gallgo yn Llanallgo ar Ynys Môn yw un o safleoedd Cristnogol hynaf yr ynys, wedi'i sefydlu yn y 6ed ganrif gan Sant Gallgo (neu Gallgu). Roedd Gallgo yn fab i Sant Cawn, pennaeth o Ddyffryn Clud yn yr Alban, ac fe wnaeth ffoi lluoedd Pictaidd gan dderbyn tir gan Maelgwn Gwynedd, Brenin Gwynedd, i sefydlu llan. Ceir cangell o'r 15fed ganrif a chloch o'r 13eg ganrif yn yr eglwys o hyd, ac mae ei siâp croesffurf amlwg yn dangos ei wreiddiau canoloesol. Dyma hefyd fan claddu llawer o'r rhai a fu farw yn llongddrylliad y Royal Charter ym 1859, gan gysylltu hanes maith y safle o ffydd â phennod ddramatig o drychineb lleol. Yn y fynwent, gallwch hefyd weld "Angor Trotman" sef y 'Llif-angor' a gludwyd ar y Royal Charter. Darganfyddwch fwy**

11. O eglwys Sant Gallgo, cerddwch drwy'r fynwent i gyrraedd y maes parcio, ac o'r fan hon trowch i'r dde ar y ffordd a cherddwch bellter byr i gyrraedd grisiau a gât ar eich chwith yn arwain y mewn i gae. Cerddwch ar draws y cae i gyfeiriad ochr chwith y tai, lle ceir hen gamfa gris garreg i'r ffordd.

12. Trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd tan ychydig cyn yr arwydd ffordd '20' (400 medr) lle byddwch yn dod o hyd i gât mochyn. Dilynwch y llwybr hwn, dros gamfa garreg a nesaf at barc carafanau. Ewch heibio'r Parciau Arms ar y chwith i gyrraedd y briffordd.

13. Trowch i'r dde, heibio fan pasio ac yna edrychwch i'r chwith ar draws y ffordd tan i chi weld gât ac arwydd llwybr troed. Pan fo'n ddiogel, croeswch y ffordd a dilynwch y llwybr hwn i fyny drwy'r coed.

14. Dilynwch y llwybr troed bach drwy'r coed, gan droi i'r dde wrth y fforch, ac yna ymlaen i gyrraedd camfa garreg hir â gât bren lydan sy'n arwain i mewn i badog. Ewch yn syth ar draws a rhyw fymryn i'r dde yn y padog (gan ddweud helo wrth y geifr) ac allan o'r gât gan sicrhau eich bod yn ei chau y tu ôl i chi. Cadwch i'r dde ar hyd y dramwyfa i gyrraedd y ffordd.

15. Trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd (yna trac, yna ffordd eto) am 930 medr i gyrraedd eglwys fach y Santes Fair.

**Eglwys ganoloesol restredig Gradd II* yw'r Santes Fair yn Llanfair Mathafarn Eithaf. Mae'r corff a'r drws gogleddol yn dyddio'n ôl i'r 14eg ganrif, ac ychwanegwyd y gangell a'r ffenestr ddwyreiniol yn y 15fed ganrif. Ganwyd y bardd a gweinidog nodedig o'r 18fed ganrif, Goronwy Owen yn gyfagos; gwasanaethodd yn ddiweddarach fel curad yma cyn ymfudo i America.**

16. Ar ôl yr eglwys, trowch i'r chwith i groesi'r bont a cherddwch ychydig heibio'r tai i gyrraedd gât mochyn i mewn i gae. Cadwch at y ffin chwith tan i chi fynd heibio darn â gwrychoedd garw, trowch 90° i'r dde a cherddwch (gan ddilyn llinell aneglur y gwrych). Parhewch i fyny'r allt tuag at y tai, ac yng nghornel y coed a'r ffens dilynwch y llwybr rhyw fymryn i'r dde.

17. Parhewch ar y llwybr hwn trwy ddwy gât arall i gyrraedd y ffordd. Trowch i’r chwith a cherddwch am 250 medr. Croeswch y ffordd yn ddiogel a dilynwch y llwybr troed â’r arwydd ‘Pant y Saer’.

18. Dilynwch y llwybr troed hwn ymlaen ac yna i fyny’r grisiau a thrwy gât i mewn i gae mawr, cadwch i’r dde, heibio tap ac i fyny i gornel uchaf y cae i gyrraedd gât llwybr troed arall yn arwain i mewn i’r cae nesaf. Croeswch y cae hwn o gornel i gornel tua’r chwith i gyrraedd gât arall. Ar ôl mynd drwyddi, dilynwch y llwybr sathredig i gyrraedd y siambr gladdu.



**Beddrod siambrau Neolithig yw Siambr Gladdu Pant y Saer.** **Darganfyddwch fwy**

19. Ar ôl y Siambr Gladdu, parhewch ar y prif lwybr sydd wedyn yn arwain i lawr yr allt i mewn i gae mwy. Cadwch at y ffin chwith, peidiwch â chael eich temtio i’w groesi ond parhewch i waelod pellaf y cae ac agoriad a llwybr drwy’r coed sy’n arwain i ffwrdd ac ymlaen i drac.

20. Trowch i’r chwith, dilynwch y trac tan iddo rannu. Dilynwch y trac ar yr ochr dde sy’n arwain i fyny’n serth ac yna i’r dde eto i lwybr troed. Parhewch ar y llwybr troed hwn drwy’r coed i gyrraedd cefn tai, cadwch at y llwybr tan iddo gyrraedd y ffordd.

21. Trowch i’r dde ar ffordd Bryn Rhedyn ac wrth y gyffordd nesaf trowch i’r dde eto i Lôn Pant y Cudyn. Ar ben y ffordd hon, trowch i’r chwith i ffordd Bangor a cherddwch ar hyd y ffordd gan fynd heibio’r Co-op (ar y dde) ac wrth gyffordd eglwys Sant Andreas (â’r arwyddion Dim Mynediad o’ch blaen), trowch i’r dde a dilynwch i lawr y ffordd fach sydd wedyn yn troi’n llwybr troed.

22. Mae pen arall y llwybr troed yn dod allan ar Ffordd Cynlas, trowch i’r chwith, gan gerdded i lawr y ffordd tuag at Draeth Benllech. Trowch i’r dde ar waelod y ffordd i gyrraedd glan y môr. Parhewch ar hyd lan y môr, ceir toiledau yng nghefn y maes parcio cyhoeddus a chaffi ychydig ymhellach ymlaen.

23. Yn Nhraeth Benllech, gallwch eto naill gerdded yn syth ar draws y traeth neu gerdded mwy i’r tir. Byddwch yn ymwybodol bod nant fawr yn llifo i’r traeth ac i mewn i’r môr ar gychwyn y traeth ac efallai y bydd yn rhaid cerdded drwyddi os byddwch yn dewis gwyro oddi ar y llwybr yn rhy gynnar. Parhewch ymlaen i gychwyn felly ar y rhodfa garreg a sment a fydd yn eich tywys at ffordd; mae’r rhodfa yn gwyro i’r dde cyn y nant ac yna’n dringo grisiau nesaf ati. Trowch i’r chwith ar y ffordd.

24. **Opsiwn traeth:** ar ôl tua 40 medr, dilynwch y llithrfa ar eich chwith i lawr i’r traeth a pharhewch am 900 medr. 150 medr cyn diwedd y traeth, ailymunwch â Llwybr Arfordir Ynys Môn trwy fynd i’r tir drwy’r coed a throi i’r chwith i fyny llwybr cul wedi’i ffinio â ffens a gwrych (mae’r llwybr yn gadael y traeth nesaf at arwydd yn what3words ///invisible.takeover.vaulting / Cyfeirnod grid OS SH 5297 8202).

25. **Opsiwn i’r tir:** parhewch ar hyd y promenâd a dilynwch y ffordd hyd yn oed wrth iddi droi i’r dde oddi wrth y traeth. Yn fuan ar ôl troi i’r tir, mae Llwybr Arfordir Ynys Môn yn troi i’r

chwith i lawr ffordd bengaead. Parhewch i lawr y ffordd hon ac yna ewch drwy'r bwlch nesaf at gât i ddilyn y trac a'r llwybr troed tu hwnt. Dilynwch y llwybr troed ar y chwith, drwy Ystâd Bodorgan, wrth iddo wahanu oddi wrth y trac – parhewch i mewn i'r coed ar hyd y llwybr eglur. Ychydig cyn diwedd y coed, trowch i'r dde i ddilyn arwyddion Llwybr Arfordir Ynys Môn i fyny llwybr cul wedi'i ffinio gan ffens a gwrych.

26. Ewch heibio 'The Tavern on the Bay' ar eich chwith a pharhewch ar hyd y llwybr graean i gyrraedd ffordd. Trowch i'r chwith i lawr heibio rhwystr mynediad i Barc Dewi Sant, ac yna i'r dde i drac ag arwydd ar hyd gwrych. Pan fyddwch yn cyrraedd y tarmac unwaith eto, trowch i'r dde ac yna cymerwch y chwith nesaf i gerdded rhwng carafanau sefydlog. Trowch i'r dde ar ddiwedd ffens bren hir a dilynwch Lwybr Arfordir Ynys Môn ar hyd llwybr trol sy'n troelli i lawr i ffordd Harry's Way, yn edrych allan dros Traeth Coch. Ar y ffordd, trowch i'r dde a pharhewch heibio tai haf gosod, meinciau, maes parcio a Chaffi a Bwyty The Old Boathouse a The Ship Inn. (1.3 cilomedr)

27. Mae Llwybr Arfordir Ynys Môn yn parhau yn syth heibio ac o flaen The Ship Inn ac yn parhau i fyny'r llethr y tu hwnt. Mae'n hawdd dilyn y llwybr wedyn tan i chi gyrraedd ffordd lle'r ydych yn troi i'r chwith.

28. Ewch i lawr y ffordd tuag at y bae a pharhewch i'r un cyfeiriad teithio ar hyd traeth cerrig mân. Mae llwybr graean yn parhau o gwmpas y lan ychydig uwchben y llinell benllanw. Ar ôl i'r llwybr wyro i'r chwith, byddwch yn croesi dros bont garreg fach a chul â rheiliau coch a melyn rhydlyd. Ar ôl y bont hon, cadwch ryw fymryn i'r chwith i barhau ar gyfer pen y lan. Dilynwch linellau lleidiog trwy laswellt a cherrig ac yna i fyny llwybr carreg wedi'i adeiladu rywsut-rywsut tan i chi gyrraedd trac tywod. Mae mainc yn cynnig man hyfryd i gymryd saib a gwylio'r adar. (1.3 cilomedr)

**Saib y Pererin**:
what3words ///suiting.offer.laughs
Cyfeirnod grid OS SH 5278 7997

29. Parhewch am 500 medr arall ar hyd y lan tan i drac graean a thywod fynd i'r tir ychydig ar ôl tŷ mawr Pen-y-Lôn. Trowch tua'r tir i fyny'r trac hwn a dilynwch arwyddion llwybr troed ar hyd trac a llwybr tan i chi gyrraedd grid gwartheg cyn ffordd unionsyth. Ar y ffordd, trowch i'r chwith a pharhewch ryw fymryn i lawr allt ac yna i fyny allt i gyrraedd maes parcio Pentraeth.